



Pwy yw LtEI?

Cynhelir y rhaglen mewn partneriaeth efo Leadership through Experience (International). Maent yn arbenigo mewn datblygu arweinyddiaeth ac mae ganddynt gryn brofiad o lunio a darparu rhaglenni datblygu arweinyddiaeth ysbrydoledig i sefydliadau preifat a chyhoeddus, a hynny'n genedlaethol ac yn rhyngwladol.

DIM COST

Nid yw'r Rhaglen yn un preswyl ac fe'i cynhelir dros gyfnod o bum diwrnod yn olynol. Mae ymrwymiad llawn ar gyfer y pum diwrnod yn hanfodol.

Er mwyn datgan eich diddordeb mewn mynychu yr hyfforddiant cysylltwch â Ceri Siân Kenrick erbyn 12pm Dydd Llun, Hydref 16 2017.

Ceri Siân Kenrick

Swyddog Cefnogi

Ffôn / Tel: 0300 500 80 87

E-bost / E-mail: cerisiankenrick@GwEGogledd.Cymru



Bryn Eirias,
Ffordd Abergele,
Bae Colwyn, Conwy,
LL29 8BY

<http://www.gwe.gogleddcymru>

Profiad Arweinyddiaeth 2017



i Benaethiaid (cynradd ac uwchradd ac arbennig)

Mae GwE wedi nodi bod arweinyddiaeth o'r radd flaenaf yn hanfodol i feithrin dawn, dyhead a dysgu pob plentyn. Cydnabyddir bod arweinyddiaeth effeithiol yn allweddol i greu ysgolion llwyddiannus y dyfodol



Arweinyddiaeth, gwaith tîm a hyfforddiant sy'n gyfrifol am droi unrhyw ysgol yn ysgol wych; llythrennedd a rhifedd sy'n ffurfio rhan o'r sylfaen greiddiol i ddyfodol a photensial pob plentyn

Rhaglen datblygu arweinyddiaeth sy'n ysgogi a rhoi boddhad i benaethiaid mewn swydd sy'n awyddus i gymryd rhan yn y profiad datblygu arweinyddiaeth unigryw hwn.

6 - 10 Tachwedd 2017

If you tell me, I will listen. If you show me, I will see. But if you let me experience, I will learn.
(Lao-Tse. 5th Century BC)

Trwy ddysgu drwy brofiad, bydd y Rhaglen yn...

Archwilio themau craidd arweinyddiaeth sy'n bwysig i berfformiad effeithiol, gan gynnwys:

- meddwl a gweithredu strategol
- arwain newid tuag at ddeilliannau llwyddiannus i'r holl randdeiliaid
- ymgysylltu, grymuso ac atebolrwydd
- datrys problemau
- timau tra effeithiol a gwaith tîm
- hyfforddi

Rhoi cyfle i chi weithio gyda phenaethiaid eraill yn rhanbarth GwE a'ch galluogi i ddysgu a datblygu'r ymddygiad, y gwerthoedd a'r sgiliau arwain personol sy'n effeithio ar eich bywyd chi'ch hun, eich tîm a'ch ysgol.

Diwrnod Un: Cyfres o brosiectau ymarferol i ddatblygu

dealltwriaeth o, a gosod, amcanion a strategaeth. Mae modelau damcaniaethol yn canolbwyntio ar yr ymddygiadau arweinyddiaeth sy'n ofynnol ar gyfer cyflawni tasgau a chyfathrebu effeithiol. Mae gwaith grŵp yn hoelio sylw pob aelod ar eu hamcanion dysgu personol.

Diwrnod Dau: Cyfres o brosiectau sy'n amlygu cyflymder

newid, cystadleuaeth, cydweithredu, dyfalbarhad a dyncnwch personol a dylanwad. Mae sesiynau llawn yn mynd i'r afael â phwysigrwydd arsylwi, adolygu perfformiad a gwaith tîm, perfformiad tîm a nodweddion a gwerthoedd timau tra effeithiol.

Diwrnod Tri: Mae gwaith grŵp yn awr yn

canolbwyntio ar arddulliau arwain a phwysigrwydd cymhelliad a dyfalbarhad a chyfrifoldeb personol. Bydd gan bob aelod ddealltwriaeth glir o'u harddull arwain unigol (trwy gyfrwng adnodd proffilio seicolegol LtEI; Modus®).

Diwrnod Pedwar: Dwyn

ynghyd yr holl bwyntiau dysgu ar lefel grŵp ac unigol, a gofnodwyd ac a weithredwyd trwy adolygiadau gan gymheiriaid yn ystod y tri diwrnod blaenorol a thrwy sesiwn fyfyril unigol yn canolbwyntio ar gymhelliad personol.

Diwrnod Pump:

Ymarfer y pwyntiau dysgu allweddol ar lefel grŵp ac unigol. Mae'r sesiwn olaf yn canolbwyntio ar adborth personol gan gymheiriaid yn seiliedig ar brofiadau'r pedwar diwrnod blaenorol.

Hanner diwrnod
o gyflwyniad i'r
cwrs

Y Rhaglen

Dilyniant

Mae LtEI yn defnyddio ystod eang o ddulliau dysgu ymarferol a damcaniaethol, ochr yn ochr â chyfleoedd hyfforddi i unigolion yn ogystal â chyfoedion, a hynny mewn awyrgylch cefnogol a myfyriol. Er bod y Rhaglen yn ymarferol ac yn un lle mae aelodau yn dysgu trwy brofiad, nid yw'r Rhaglen yn brawf o fedrusrwydd neu ffitrwydd corfforol. Ni ddylai unrhyw ddarpar aelod deimlo nad yw'n addas ar gyfer y Rhaglen oherwydd unrhyw gyfyngiadau corfforol.

Dyma sylwadau gan rai a fu ar y Rhaglen yn flaenorol:

"Roeddwn yn disgwyl cael llawer o gyngor ar sut i wella fy sgiliau arweinyddiaeth. Yn lle hynny, erbyn i mi gwblhau'r pum diwrnod, roeddwn yn meddu ar yr hyder, yr hunanymwybyddiaeth a'r potensial i wneud hyn drosta fy hun. Hwn oedd y dysgu arweinyddiaeth gorau i mi ei wneud erioed"

"Cafodd y cwrs effaith ddofn ar fy mywyd gwaith. Yn wirioneddol fwy nag unrhyw hyfforddiant arall y bûm arno. Mae fy Uwch Dimau Arweinyddiaeth yn gweld systemau mwy cadarn, gweithdrefnau sydd wedi'u diffinio'n gliriach a pherson mwy trefnus a gwybodus am y sefydliad cyfan oherwydd nid wyf 'oddi mewn' iddo! Rwyf yn synnu o hyd faint mwy rwyf yn ei wybod a'i weld gan fy mod wedi sicrhau fy mod allan o'r ddolen 'gwneud' "

"Pum diwrnod gwych. Rwyf yn teimlo wedi fy adnewyddu a'm bywiogi gan yr holl brofiad."

"Flwyddyn yn ddiweddarach, mae'r gwerthoedd craidd a ddysgais yn dal i effeithio ar fy ngallu i fod yn bennaeth strategol. Mae wedi rhoi'r hyder a'r gallu i mi ymgymryd â heriau newydd na fyddwn wedi'u hystyried o'r blaen. Ar lefel bersonol, rwyf wedi tyfu mewn hyder."

"Y profiad mwyaf pleserus i mi ei gael ers amser hir ac rwy'n falch fy mod wedi ymgysylltu'n agored o'r dechrau. Agorodd fy llygaid a newidiodd fy agwedd tuag at lawer o bethau."

"Am bum diwrnod anhygoel a gawsom! Gresyn na fyddai'r math hwn o brofiad wedi bod ar gael i ni 10 mlynedd yn ôl. Roeddwn yn teimlo'n emosynol iawn ar ddiwedd y profiad ac roedd yn deimlad rhyfedd gyrru i'r ysgol fore Llun."

"Ni feddyliais am funud am effaith fy mhrofiad pedwar diwrnod ar fy rôl fel arweinydd ysgol. Rwyf nawr yn edrych ar fy staff mewn ffordd wahanol. A ydw i wedi rheoli yn llwyddiannus rai o'm staff sy'n tanberfformio? A wyf wedi dirprwyo'r tasgau cywir i'r bobl gywir yn y tîm?"

"Rwy'n teimlo'n gyffrous iawn am y dyfodol. Rwyf yn gwir gwerthfawrogi'r profiad goleuedig hwn."

"Roedd y pum diwrnod yn hollol wych - mwynheais bob munud. Mae Tîm Sky eisoes wedi bod yn cynllunio beth y gallem ei wneud fel grŵp ac rydym yn edrych ar sut y gallwn gydweithio i ddatblygu arweinwyr yn ein hysgolion"

"Profiad arweinyddiaeth pleserus, caled a heriol sydd yn dal i gael effaith gadarnhaol ar fy arweinyddiaeth bersonol. Ymchwiliwyd i fachau a damcaniaethau treiddgar mewn cyd-destun a chafwyd adborth personol a datblygiadol"